***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3985

# Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001

**Fel arfer yn preswylio**

**4.**—(1) Mae person i'w drin fel pe bai fel arfer yn preswylio mewn unrhyw safle at ddibenion adran 50 os yw mewn gwirionedd yn preswylio mewn safle felly neu'n absennol dros dro o safle felly.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "absennol dros dro" yw absennol am gyfnod nad yw yn fwy —

(a) oni bai fod y person yn glaf drwy gydol y cyfnod absenoldeb —

(i) na 4 wythnos, os oedd y person cyn y cyfnod absenoldeb yn preswylio dros dro mewn safle perthnasol;

(ii) na 13 wythnos, os oedd y person cyn y cyfnod absenoldeb yn preswylio yn barhaol mewn safle perthnasol;

(b) na 52 wythnos, os oedd y person yn glaf drwy gydol y cyfnod absenoldeb.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn —

(a) ystyr "claf" yw person (heblaw carcharor) y bernir ei fod yn cael triniaeth ddi-dâl fel claf mewnol o fewn ystyr Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Cleifion Mewnol Ysbytai) 1975(**1**); a

(b) mae person yn preswylio'n barhaol mewn safle perthnasol os dyna brif breswylfan y person, ac mae'n preswylio dros dro os nad dyna brif breswylfan y person.

(**1**) O.S. 1975/555. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1992/2595 a 1999/1326.